

national **dance**
company **wales**
cwmni **dawns**
cenedlaethol **cymru**



Pecyn Recriwtio Cyfarwyddwyr Artístig





Neges gan Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Jane McCloskey

Diolch i chi am eich diddordeb yn y swydd Cyfarwyddwr Artistig. Mae hwn yn amser cyffrous i CDCCymru ac i mi yn bersonol, wrth i'r Bwrdd baratoi i benodi Cyfarwyddwr Artistig a fydd yn cael ei ddenu gan y cyfle i weithio yng Nghymru ac i gael ei ysbrydoli gan Gymru gyfoes a'i diwylliant.

I ni – ac i bawb yn y sector dawns a'r sector ddiwylliannol ehangach – mae hwn yn adeg o newid dynamig a brys. Mae'n adeg i rywun ymuno â ni a all achub ar y cyfle i ail-ddychmygu'r hyn y gallai cwmni dawns gyfoes fod, wrth aros yn driw i'n cenhadaeth a'n gwerthoedd ac ysbrydoli pobl Cymru a'r byd gyda dawns wych. Rydym yn agored i syniadau radical a ffyrdd newydd o weithredu - gyda'n cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr wrth wraidd ein meddwl. Rydym eisiau dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i gyrraedd pobl newydd a gwahanol - i gyflawni ein cenhadaeth 'i wneud dawns wych gyda phob math o bobl, ac ar gyfer pob math o bobl, ym mhob math o leoedd.'

Byddwch yn arweinydd ysbrydoledig a phrofiadol gyda gweledigaeth artistig feiddgar, unigryw ac angerdd diderfyn dros ddawns. Yn adrodd i'r Prif Weithredwr ac yn gweithio'n agos gydag ef, byddwch yn cyd-greu ein cynllun strategol ac yn dyfeisio a chomisiynu rhaglen artistig fentrus y Cwmni gyda dysgu a chyfranogi wrth ei gwraidd ynghyd â rhaglen ddigidol newydd feiddgar. Rydym yn agored i ddulliau a syniadau newydd sy'n cyd-fynd â'n hawydd am arloesi ac yn mynegi ein gwerthoedd.

Mae'n bwysig eich bod yn guradur dawns profiadol, yn canolbwyntio ar y gynulleidfa ac yn cael eich parchu'n eang gan artistiaid sefydledig, artistiaid sy'n dod i'r amlwg a chydweithwyr yn y diwydiant. Yn gyffyrddus yn y stiwdio a'r swyddfa, bydd gennych ddull gweithredu blaengar a gwydn, ac yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd nawr. Os ydych chi'n goreograffydd, byddwch yn barod i ymatal rhag creu gwaith gyda CDCCymru am y ddwy flynedd gyntaf i roi egni ac ehangder llawn eich gweledigaeth i'r Cwmni.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â gwybodaeth ddofn am ddawns gyfoes, gallu profedig i gefnogi a meithrin cydweithrediadau

artistig ac sydd mewn cyswllt â hyrwyddwyr a rhaglenwyr sy'n berthnasol i CDCCymru. Byddwch wedi ymrwymo'n ddwfn i ddod o hyd i fwy o ffyrdd y gall CDCCymru gysylltu â'r cyhoedd i gyflawni ei flaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol a chynyddu ac amrywio pwy sy'n gweld ac yn cymryd rhan yn ein gwaith.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr - y deuthum yn Gadeirydd arno ym mis Medi 2017 - yn grŵp bywiog, amrywiol, gwybodus ac ymroddedig sydd â chariad a rennir at ddawns gyfoes ac agenda i gefnogi twf a llwyddiant CDCCymru. Mae ein harbenigedd yn cynnwys dawns, cyfranogi, busnes, cyfreithiol ac ariannol, digidol a rheoli.

Yn y pecyn hwn mae yna:

Gwybodaeth gefndirol am CDCCymru	Tudalen 6
Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person	Tudalen 16
Sut i wneud cais	Tudalen 20
Strwythur staff presennol	Tudalen 22

Gallwch, wrth gwrs, ddod o hyd i ragor o wybodaeth am CDCCymru ar ein gwefan www.ndcwales.co.uk gan gynnwys ein hadroddiad blynyddol diweddaraf ar gyfer 2018/19, a mwy o wybodaeth am ein hymddiriedolwyr.

Rydym wedi cyflogi Theresa Beattie fel ein hymgyngorydd recriwtio, a byddai'n hapus i gael sgwrs anffurfiol, gyfrinachol gyda darpar ymgeiswyr. Rwy'n eich annog i gysylltu â hi trwy: theresa.beattie1@gmail.com. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 23 Tachwedd am 12 hanner dydd. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Dymuniadau gorau

Jane McCloskey, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'r pecyn hwn ar gael mewn print bras a fformat [sain yma](#). Anfonwch neges e-bost at Kelly Twydale yn kelly@ndcwales.co.uk i ofyn am y pecyn mewn unrhyw fformat arall.

Dyweddodd y Prif Weithredwr, Paul Kaynes:

‘Rydym yn barod am newid ac ailddyfeisio i ddiwallu anghenion a dyheadau pobl Cymru, gyda ffocws diwyro ar ein cynulleidfaoedd a’n cyfranogwyr. Mae gennym y potensial i greu newid ac effaith wirioneddol trwy ein gwaith, ac rwy’n edrych ymlaen at ddechrau ar y dasg honno gyda’n Cyfarwyddwr Artistig newydd. Byddwn yn treulio amser yn deall safbwyntiau a syniadau ein gilydd, gan fanteisio ar ein cyd-egni a cheisio mewnwelediad i sut y gallwn ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chefnogi gwaith ein gilydd. Gyda’n gilydd byddwn yn gwrandao ar bobl yn y Cwmni a’r tu allan iddo, i ddeall pa newid sydd ei angen i gyflawni ein blaenoriaeth o gyfiawnder cymdeithasol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Ni fydd hynny’n syml nac yn gyflym - bydd yn cymryd amynedd a sensitifrwydd, ond mae’n rhaglen o newid a datblygu yr ydym yn barod amdani.’



Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae dawnys yn rhan o fywyd pawb, a'n bod yn cael ein dathlu fel cenedl sy'n angerddol am ddawns a dawnysio.

Ein cenhadaeth yw creu gwaith dawnys gwyh gyda phob math o bobl, ar gyfer pob math o bobl, mewn pob math o leoedd.

Fel cwmni dawnys sefydlog, rydym yn creu cymysgedd o waith gan ystod o goreograffwyr i adlewyrchu gwahanol safbwyntiau ar Gymru a'r byd. Trwy wneud dawnys ar gyfer llwyfannau mawr a bach, yn yr awyr agored, mewn lleoliadau anarferol, ar-lein, a thrwy brofiadau dysgu a chyfranogi, gallwn aros yn hyblyg ac ymateb yn gyflym.

Yn ganolog i'n cenhadaeth yw bod ein rhaglenni'n berthnasol i gymunedau amrywiol Cymru ac yn gynrychioliadol ohonynt. Gan weithio gyda'n gilydd, ein nod yw ysbrydoli einartneriaid ledled y wlad gyda'n brwdfrydedd dros ddawns, ac felly cynyddu ac amrywio ein cynulleidfaoedd. Rydym yn credu y gall dawnys helpu Cymru a'i chymunedau i ffynnu. Trwy roi cynulleidfaoedd a chyfranogwyr wrth galon ein gwaith rydym yn sicrhau bod CDCCymru yn ymateb i ddyhead cymunedol, ac yn harneisio creadigrwydd yn y ffordd yr ydym yn cynllunio, dyfeisio a chyflwyno'r hyn a wnawn.

Gallwn helpu Cymru i ail-ddychmygu ei hun, gan alluogi'r genedl i adnabod y rhannau o'i hun sydd ddim yn cael eu gweld yn aml. Mae ein gwaith rhyngwladol yn adlewyrchu'r syniad bod y byd eisoes yng Nghymru - yn enwedig trwy ein hanes trefedigaethol - felly mae ein gwaith rhyngwladol yn ymwneud â'n hamgylchedd ni gymaint ag y mae ag eraill'.

Ein blaenoriaethau:

- **Cyfiawnder Troseddol er budd cenedlaethau'r dyfodol**
- **'Laboratori' ar gyfer arloesi**
- **Cadarn yn ariannol a gwydn yn sefydliadol**

Ein gwerthoedd yw bod yn:

Gysylltiedig – bod â chysylltiadau da yn y gymuned ddawns, gyda sefydliadau diwylliannol eraill, amrywiaeth eang o bartneriaid y tu hwnt i'r sector diwylliannol, ac â chymunedau o le a diddordeb

Hyderus – fel hyrwyddwyr ar gyfer dawnys, ymchwil blaenllaw, creu ac ymgysylltu, cyflwyno gwaith mewn lleoliadau gwahanol o lwyfannau i labordai, o lwyfannu digidol i gartrefi gofal

Chwylfrydig – i ddysgu mwy, i arloesi, i brofi a choreograffu trefniadau newydd o bobl a syniadau, gan gofleidio amrywiaeth fel catalydd ar gyfer dysgu

Hael – parod i rannu ein hangerdd, ein gwybodaeth a'n hadnoddau ag artistiaid, chyfranogwyr, cydweithwyr a chynulleidfaoedd

Cydraddoldeb

Mae CDCCymru yn gwneud dawnys arloesol gyda phob math o bobl ac ar gyfer pob math o bobl, ac yn cyflwyno ei waith mewn gwahanol fformatau a chyd-destunau ledled Cymru a ledled y byd. Credwn y dylai amrywiaeth gael ei hymgorffori'n llawn yn niwylliant a gwerthoedd sefydliadol, ac rydym yn ceisio newid yn amrywiaeth y cwmni a'i waith. Rydym yn angerddol ac yn ymrwymedig i amrywio'r sefydliad a byd dawnys, ond er mwyn cyflawni hyn mae angen i ni ddeall yn well y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn ein gwaith. I'r perwyl hwnnw rydym yn siarad â phobl o ystod o gymunedau ac yn gwrandao arnynt, i ddod â dealltwriaeth a mewnwelediad, ac i feithrin newid.

Mae manylion am y camau yr ydym yn eu cymryd ar gael yma

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020.

Mae Cymru yn lle o harddwch prin gyda'r iaith hynaf yn Ewrop a thraddodiad o lenyddiaeth a barddoniaeth sy'n gallu cystadlu ag unrhyw wlad yn y byd. Mae Caerdydd yn ennill enw da yn genedlaethol a rhyngwladol fel canolbwynt i greadigrwydd trwy'r celfyddydau a'r cyfryngau. Mae'r Ddinas ei hun yn brifddinas ddynamig, ifanc a gobeithiol ac mae ganddi gysylltiadau da a gweddill y DU ac Ewrop.

Mae CDCCymru yn un o gwmnïau celfyddydol cenedlaethol Cymru, ochr yn ochr â National Theatre Wales, Theatr Genedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ac Opera Cenedlaethol Cymru ymhlith eraill. Rydym yn cyrraedd ac yn ysbrydoli cynulleidfaoedd a chyfranogwyr ledled Cymru, y DU ehangach a ledled y byd gan greu effaith amlwg gyda gwaith o'r ansawdd uchaf.

Rydym wedi ein lleoli yn y Tŷ Dawns yng Nghanolfan Mileniwm Caerdydd yng nghalon cenedl fywiog, ac rydym yn falch o'n statws fel cwmni cenedlaethol. Mae Cymru yn mynd trwy ddateni deinamig, ac yn allweddol i hyn mae rhwydwaith ledled y wlad o artistiaid, lleoliadau, cynhyrchwyr a gwyliau. Mae CDCCymru wedi chwarae rhan bendant yn y twf hwn, gan greu gwaith nodedig, gan Gymru ar gyfer Cymru, yn datlu pwysigrwydd diwylliannol y wlad hon trwy hyrwyddo gwaith artistiaid o Gymru. Mae'r Cwmni'n gwneud cyfraniad sylweddol at broffil diwylliant cyfoes Cymru ac ymwybyddiaeth ohono ledled y DU ac yn rhyngwladol.

O fewn y Cwmni mae yna wyth dawnsiwr eithriadol gan gynnwys prif ddawnsiwr dysgu, dau ddysgwr seiliedig ar waith a thîm creadigol a busnes talentog iawn. Mae'r cwmni'n cael ei arwain gan y Prif Weithredwr Paul Kaynes sydd wedi bod gyda CDCCymru ers dros 5 mlynedd, ac uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys pedwar aelod (gweler y strwythur staff ar dudalen pxx). Rydym yn cydnabod gwerth dysgu a chyfranogi wrth ddatblygu talent, ehangu ymgysylltiad â dawns a datblygu cynulleidfaoedd nid yn unig i ni ond i waith artistiaid dawns eraill - mae'r gweithgaredd hwn wrth wraidd yr hyn a wnawn. Gyda'nartneriaid rydym yn archwilio'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng dawns ac ieuchyd ac yn cynnal dosbarthiadau ar gyfer dros 8000 o bobl o bob oed a gallu bob blwyddyn.

Mae amrywio'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw, yn artistiaid, staff a chynulleidfaoedd yn hanfodol. Mae gennym dargedau uchelgeisiol i adeiladu ar y gwaith sydd wedi arwain at Fwrdd, gweithlu a dawnsiwr mwy amrywiol. Mae 14% o'n Bwrdd a'n gweithlu o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig, mae 17% yn Fyddar neu'n anabl, a 30% yn adnabod eu hunain fel LGBTQ+. Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud i sicrhau tegwch ac mae hwn yn nod allweddol i'r Bwrdd a'r tîm arweinyddiaeth.

Dawns yng Nghymru

Mae'r sector dawns yng Nghymru yn cynnwys cwmnïau ac artistiaid unigol sy'n creu gwaith ac yn cyflwyno gweithgareddau yn y gymuned. Nid yw'r sector yn un mawr ond mae'n gynyddol amrywiol. Mae yna nifer o sefydliadau sy'n rhan o 'Portffolio Celfyddydol Cymru' Cyngor Celfyddydau Cymru. Ar wahân i CDCCymru, mae'r aelodau'n cynnwys Ballet Cymru a Jukebox Collective, yn ogystal â Migrations, sefydliad celfyddydau cyfoes wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru sy'n comisiynu gwaith dawns. Mae yna rwydwaith gref a hirsefydlog o asiantaethau dawns cymunedol ledled y wlad - Rubicon yn y De Ddwyrain, Impelo sy'n cwmpasu Powys, Dawns i Bawb yng Ngogledd Orllewin Cymru a Dawns Gogledd Ddwyrain Cymru (NEW Dance), a chydabyddiaeth gynyddol o'r rôl y gall dawns ei chwarae yn y sector ieuchyd. Yn ychwanegol, mae yna rwydwaith o artistiaid dawns annibynnol sy'n creu gwaith ac yn ei fynd ar daith pan fo arian y loteri yn caniatáu. Mae yna gwrs dawns addysg uwch ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin tra bod y cwrs ym Mhrifysgol De Cymru i fod i ddod i ben. Mae yna nifer o leoliadau bach a chanolig eu maint sy'n cynnwys dawns ar eu rhaglenni yn rheolaidd. Mae Gŵyl Ddawns Caerdydd yn ddigwyddiad rhyngwladol bob dwy flynedd sy'n defnyddio'r Tŷ Dawns fel un o'i lleoliadau rheolaidd.



Cwmni Cenedlaethol



Y Cwmni

Llwyddiannau diweddar

Dros y blynnyddoedd diwethaf mae CDCCymru wedi creu gwaith mwy amrywiol, wedi cynyddu nifer y cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn sylweddol, wedi cynyddu lefelau gweithgaredd ac wedi cyflwyno gwaith o ansawdd uchel yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys cynyrchiadau awyr agored ar raddfa fawr, comisiynau digidol, cyd-gynyrchiadau, teithiau i leoliadau bach eu maint yng Nghymru ac ehangu teithiau i leoliadau canolig eu maint. O ganlyniad, mae'r Cwmni wedi magu hyder a phroffil ac wedi meithrin cysylltiadau cryf, yn enwedig yng Nghymru gydag artistiaid ac ymarferwyr yr ydym yn gweithio gyda nhw fel cydweithwyr artistig, partneriaid gweithdy ac artistiaid a gomisiynwyd.

Yn ystod yr argyfwng Covid-19, rydym wedi cynnal cysylltiadau â'n cynulleidfaoedd a'n hartistiaid yng Nghymru trwy greu gwaith gwreiddiol ar-lein, sicrhau bod gweithgareddau cyfranogol ar gael ar gyfer ystod eang o gyfranogwyr, a ffrydio perfformiadau. Mae hyn wedi adeiladu ar waith a oedd eisoes ar y gweill yn archwilio dulliau digidol newydd o greu a rhannu dawns, trwy Realiti Cymysg a Realiti Estynedig. Mae hyn yn ffocws proses Ymchwil a Datblygu estynedig a'i fwriad yw creu elfen newydd ar gyfer ein rhaglen.

Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf rydym wedi comisiynu Alexandra Waierstall, Anthony Matsena, Marcos Morau, Fernando Melo a'r cyn Gyfarwyddwyr Artistig Caroline Finn ac Fearghus Ó Conchúir, i greu gweithiau byw gyda'r Cwmni. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Artistiaid Cyswllt Ifanc, ein cwmni leuenctid 14-19 oed sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant cyfoes lefel broffesiynol pob wythnos, a'n dawnsyr Dawns ar gyfer Parkinson's, y mwyaf diweddar yw Reflections, a grëwyd gan Fearghus ac a ysbrydolwyd gan Afterimage gan Fernando Melo.

Mae gennym rôl gynyddol yn y sector dawns ehangach yng Nghymru trwy brosiectau megis Laboratori sy'n dwyn ynghyd coreograffwyr annibynnol sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg a dawnsyr CDCCymru i weithio gyda mentoriaid profiadol, gan greu lle i'r rhai sy'n ymwneud â chreu a rhaglennu dawns yng Nghymru i gydweithio i greu newid. Yn ddiweddar rydym wedi comisiynu 8 artist o Gymru i weithio gyda beirdd i greu Plethu/Weave, cyfres o ffilmiau byr yn plethu dawns a barddoniaeth.

Mae gwaith rhyngwladol CDCCymru yn cyfrannu at enw da Cymru dramor: yn 2019/20 gwnaethom lwyfannu 20 perfformiad yn Japan (i gyd-fynd â Chwpan Rygbi'r Byd), Hong Kong, Sbaen, yr Almaen ac Awstria. Gyda chefnogaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, mae'r cwmni'n datblygu partneriaethau a theithiau rhyngwladol newydd. Er enghraifft, rydym yn cynllunio cydweithrediad â Chwmni Dawns Cyfoes Cenedlaethol Corea (KNCDC) yn 2021/22 pan fydd coreograffydd o Gymru yn creu gwaith gyda KNCDC, a choreograffydd o Gorea yn creu gwaith gyda CDCCymru.

Sefydlwyd CDCCymru fel ‘Diversions’ yn 1983 a thyfodd mewn maint a statws. Yn 2004, symudodd y Cwmni i gartref newydd, pwrpasol, y Tŷ Dawns, fel rhan o Ganolfan Mileniwm Cymru a oedd newydd ei adeiladu. Yna, yn 2009, newidiodd y Cwmni ei enw i Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, i adlewyrchu ei statws a’i rôl mewn arwain a hyrwyddo Dawns yng Nghymru.

Mae CDCCymru yn cynnal cwmni parhaol o wyth dawnsiwr llawn amser a dau brentis sy’n perfformio yn y ganolfan ac mewn lleoliadau eraill yng Nghymru, y DU yn ehangach ac yn rhwngwladol.

Wedi iddi roi’r gorau i’w swydd fel Cyfarwyddwr Artistig y Cwmni yn 2017, mae Caroline Finn yn cynnal perthynas agos â CDCCymru sy’n mynd â’r gwaith a wnaeth yn ystod ei chyfnod fel Cyfarwyddwr Artistig ar daith. Bydd Caroline yn creu gwaith newydd ar gyfer Taith Gwanwyn y Cwmni yn 2021. Mae’r Artistiaid Cyswllt, Antony Matsena a Matteo Marfoglia yn helpu’r Cwmni i fynegi, ymestyn ac amrywio ei weledigaeth trwy gysylltiadau tymor hwy sy’n llywio gwahanol agweddau ar ein gwaith. Gall yr Artistiaid Cyswllt, sy’n cael eu dewis gan y Cyfarwyddwr Artistig am gyfnodau o ddwy flynedd o leiaf, weithio gyda CDCCymru i greu darnau ar gyfer ei repertoire proffesiynol, i’w Artistiaid Cyswllt Ifanc a rhaglenni eraill a gallant gyfrannu at weithgareddau Dysgu a Chyfranogi’r Cwmni.

Rydym yn cynnal rhaglen gynyddol o gyfranogiad dawns, yn enwedig yng Nghymru ar gyfer yr hen a’r ifanc, ar gyfer rhai nad ydynt erioed wedi rhoi cynnig ar ddawns o’r blaen, ar gyfer dawnswyr sydd am ddatblygu eu sgiliau a’u celfyddyd, ac ar gyfer pobl y mae dawns yn weithgaredd therapiwtig iddynt oherwydd cyflwr neu salwch. Tra bod dawnswyr y Cwmni yn ymwneud â rhai o’r prosiectau eang hyn, mae’r mwyafrif yn cael eu cyflwyno gan ein Llysgenhadon Dawns, rhwydwaith o 24 o artistiaid dawns llawrydd ledled Cymru a Lloegr, sydd wedi eu trwytho yn ein repertoire ac yn gweithio yn eu cymunedau lleol gyda phobl ifanc ac oedolion. Mae nifer o’r Llysgenhadon Dawns hyn yn gysylltiedig ag un o’n wyth Lleoliad Blaenoriaeth sydd wedi’u lleoli yng Nghymru yn bennaf.

Mae gennym ein stiwdio ymarfer ein hunain gyda 102 o seddi swyddfeydd a chyfleusterau cynhyrchu yn y Tŷ Dawns. Yn ychwanegol at ei ddefnydd gan CDCCymru, rydym yn llogi’r lle perfformio i gwmnïau hyfforddi dawns lleol a rhai o ar draws y DU, artistiaid dawns annibynnol o Gymru yn bennaf, ac artistiaid sy’n gweithio mewn disgyblaethau eraill. Mae cyfle, yn amodol ar gyllid, i ddatblygu rhaglen ddawns gyhoeddus wedi’i churadu.

Rydym yn creu perfformiadau ar gyfer pob math o leoliadau - o theatrau bach a mawr yng Nghymru i Faes yr Eisteddfod, o lwyfannau Ewropeaidd a rhwngwladol i brosiectau ar-lein a sgrin, ac o leoliadau treftadaeth i’n cartref yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Llywodraethu a Chyllid

Mae CDCCymru yn elusen gofrestredig sydd ag ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gweithredu fel cyfarwyddwyr y Cwmni dyma ddolen i **Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, Hydref 2020**. Mae’r Bwrdd yn cael ei arwain gan y Cadeirydd Jane McCloskey, darlledwr ac academydd, sydd â chefnidir cryf mewn datblygu diwydiannau creadigol. Caiff Ymddiriedolwyr eu recriwtio drwy hysbyseb a chyfweliad.

Ein nod yw creu rhaglen sy’n artistig feiddgar ac uchelgeisiol wrth gynnal sefyllfa ariannol gadarn. Ariennir ein gwaith trwy incwm grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru (prif ariannwr y Cwmni - £843,000 yn 20/21), incwm swyddfa docynnau, llogi lle a chodi arian gan ymddiriedolaethau elusennol, busnesau a rhoddwyr unigol.

The Board is establishing a new sub-committee, the Artistic Advisory Group, made up of trustees, staff and external representatives to support the Artistic Director in curation and decision-making - the Group will not have decision making powers. The Artistic Director will help to shape and decide the remit of this group.

Dolenni i weithiau llawn neu ragflas:



Tundra, gan Marcos Morau (2017)



Afterimage, gan Fernando Melo (2019)




Why Are People Clapping!?, gan Ed Myhill (2018)



Rugbi: Annwyl i mi/Dear to me, gan Fearghus Ó Conchúir (2019)



Reflections, gan Fearghus Ó Conchúir (2019)



Reveller's Mass, gan Caroline Finn (2019)



2067: Time and Time and Time, gan Alexandra Waierstall (2020)



Plethu/Weave, gan 8 o feirdd a dawnswyr (Digital work 2020)



Lunatic, gan Nigel Charnock (2009, adfywiad yn 2020)


Cynulleidfaoedd a Chyfranogwyr

Perfformiodd y cwmni 56 o weithiau yn 2019/20 (57 gwaith yn 2018/19). Roedd 19 o'r perfformiadau hyn yn rhai rhyngwladol, 33 ohonynt yng Nghymru a'r gweddill mewn rhannau eraill o'r DU. Yn ystod 2019/20 cyrhaeddodd CDCCymru:


- 28,143 o gyfranogwyr a chynulleidfaoedd byw
- 2,700 o bobl ifanc (7-18 oed) trwy ysgolion a gweithdai.
- 556 o bobl trwy raglen Dawns ar gyfer Parkinson's CDCCymru a Bale Cenedlaethol Lloegr.
- 1,300 o oedolion wedi cymryd rhan mewn dosbarthiadau nos yn y Tŷ Dawns.

Yn yn 6 mis diwethaf gwyliwyd ein cynnwys fideo 280,000 o weithiau ar y cyfryngau cymdeithasol ac YouTube.

OED CYFARTALOG Y GYNULLEIDFA



YMWELWYR NEWYDD v RHAI SY’N DYCHWELYD



Ymchwil Cynulleidfaoedd Byw CDCCymru 2018-2020

Cynulleidfaoedd Byw

- Nid yw ein cynulleidfaoedd yn gwylio dawns fyw yn aml, dim ond unwaith pob 2 flynedd.
- Y prif resymau mae cynulleidfaoedd eisiau gweld CDCCymru yn fyw yw cael eu hysgogi, eu difyrru a’u hysbrydoli, ac i dreulio amser gydag anwyliaid.

Cynulleidfaoedd Digidol

- Mae cynulleidfaoedd digidol CDCCymru yn llawer iau na’r cynulleidfaoedd byw.
- 17% o bobl yn adnabod eu hunain fel b/Byddar neu anabl, neu gyda chyflwr iechyd tymor hir.
- Mae 53% o’r gynulleidfa ar-lein yn fynychwyr byw rheolaidd iawn presennol. Mae 13% yn fynychwyr byw anaml, ac nid yw 10% yn mynd i weld perfformiadau byw CDCCymru.

Ym mis Medi 2020 gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol gyda chynulleidfaoedd presennol a darpar gynulleidfaoedd, i brofi am gysylltiadau rhwng y gwaith digidol sydd wedi’i greu a’i rannu, a phresenoldeb mewn perfformiadau byw.

Gwelsom fod cynulleidfaoedd ar-lein yn fwy agored i roi cynnig ar bethau newydd a’u bod yn awyddus i ddyfnhau eu gwybodaeth am greu gwaith CDCCymru. Dywedasant y byddant yn mynd i weld CDCCymru yn perfformio yn fyw yn y dyfodol.

Bydd cynulleidfaoedd craidd a’r rhai nad ydyn nhw’n mynychu yn gwylio ar-lein os bydd rhaid, ond maen nhw’n dyheu am fod mewn lleoliadau perfformio gyda chynulleidfaoedd a bod yn rhan o awyrgylch byw. Maen nhw wedi blino ar sylu ar sgrin. Byddai’n well ganddynt wylu ffilmiau byrrach ar-lein.

‘Rwy’n meddwl eich bod wedi ymateb yn gyflym iawn ac yn gadarnhaol i ddarparu cynnwys digidol o safon ac rwyf wir wedi gwerthfawrogi’r sesiynau ‘Gwylio gyda’n Gilydd’ yn fawr yn ogystal â’r sesiynau Holi ac Ateb byw gydag aelodau’r cwmni. Nid wyf yn un am ofyn cwestiynau mewn sesiynau Holi ac Ateb ar ôl perfformiadau byw, ond roeddwn i rywsut yn teimlo rheidrwydd i gysylltu â phobl oherwydd eu bod i bob pwrpas yn fy nghartref. Diolch!

Cyfranogwr ar-lein



Y Swydd



Mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn darparu arweinyddiaeth artistig ar gyfer y Cwmni, yn curadu rhaglenni gwaith ysbrydoledig ac yn ennyn brwdfrydedd aelodau'r cwmni, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yng ngrym trawsnewidiol dawns. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn cael ei benodi gan y Bwrdd ac yn adrodd i'r Prif Weithredwr.

Mae CDCCymru yn chwilio am arweinydd artistig creadigol sydd â gweledigaeth gref, unigryw ar gyfer dyfodol y cwmni dawns gyfoes sefydlog hwn. Ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli bydd yn arwain y meddwl a'r cynllunio strategol ar gyfer y Cwmni gan gynnwys y cynllun busnes. Fel arweinydd sector y celfyddydau a diwylliannol, bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn treulio tua hanner ei amser allan o gwmpas Cymru yn ymgysylltu ag artistiaid a sefydliadau partner, gan ddatblygu partneriaethau, ymgymryd â gwaith eirioli, codi arian a gwyllo gweithgaredd dysgu a chyfranogi a pherfformiadau.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan arweinwyr dawns. Efallai eich bod yn goreograffydd, yn guradur dawns, cynhyrchydd creadigol, yn rhaglennydd neu o gefndir creadigol arall mewn dawns. Mae'n debygol y byddwch wedi arwain cwmni neu sefydliad dawns neu wedi gweithio mewn un ar lefel uwch. Bydd gennych record lwyddiannus fel rhaglennwr a'r gallu i gefnogi a meithrin cydweithrediadau artistig. Byddwch yn arweinydd gyda llygad ar gyfer sylwi ar dalent a gweledigaeth artistig y gallwch ei hegluro a chyffroi eraill gyda hi. Byddwch yn gyffyrddus fel eiriolwr a chynrychiolydd blaenllaw a llais Dawns yn y trafodaethau cenedlaethol am y Celfyddydau a'u potensial i sicrhau newid trawsnewidiol.

Mae arddull arwain gydweithredol a'r gallu i ymgysylltu â rôl CDCCymru fel cwmni cenedlaethol Cymru yn hanfodol, ynghyd ag angerdd i ysbrydoli cynulleidfaoedd a chyfranogwyr dawns gyda gwaith sy'n ddifyr, yn ddiddorol ac o ansawdd rhagorol. Yr un mor gyffyrddus yn gweithio mewn amgylchedd swyddfa â stiwdio, bydd yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Artistig gyfathrebu a chydweithio gyda'r Bwrdd ac aelodau'r tîm ar draws pob adran.

Mae gan y Cyfarwyddwr Artistig gyfrifoldeb rheoli llinell dros y Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi a'r ddau Gyfarwyddwr Ymarfer sy'n rheolwyr llinell ar ddawnswyr y Cwmni. Byddant yn gweithio'n agos â'r deiliaid uwch swyddi ym maes Datblygu, Cynhyrchu a Chyfathrebu. Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn mynd i ac yn cyfrannu at gyfarfodydd bwrdd a bydd ganddo berthynas waith agos gyda'r Bwrdd ac yn enwedig y Grŵp Cynghori Artistig.

Ein nod yw gwneud y penodiad hwn erbyn diwedd mis Ionawr 2021 gyda'r bwriad o'r Cyfarwyddwr Artistig newydd yn dechrau erbyn Haf 2021 ac yn curadu rhaglenni o 2022.

Telerau ac amodau

Rydym yn ystyried hon yn swydd llawn amser; fodd bynnag, rydym yn agored i gynigion rhannu swydd.

Cyflog:	£50-£55,000 yn ddibynnol ar brofiad.
Pensiwn:	Mae CDCCymru yn cyfrannu 5% o’r cyflog at bensiwn gyda Royal London, yn ddibynnol ar gyfraniad cyfatebol gan y cyflogai
Cytundeb:	Cytundeb cyflogaeth llawn amser parhaol
Oriau:	Yr oriau arferol fydd 37.5 awr yr wythnos, i’w gweithio’n hyblyg.
Lleoliad gwaith:	y Tŷ Dawns, Caerdydd
Teithio:	Teithio cenedlaethol a rhyngwladol rheolaidd a theithio gyda’r cwmni
Gwyliau:	28 diwrnod y flwyddyn ac 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus (rhaid cymryd 3 o’r rhain rhwng y Nadolig a’r flwyddyn newydd)
Cyfnod Prawf:	6 mis
Cyfnod Rhybudd:	3 mis

Mae’n hanfodol bod deiliad y swydd yn byw yn lleol. Bydd CDCCymru yn cyfrannu at gostau symud i o fewn 20 milltir o Gaerdydd.

Bydd unrhyw gynnig o gyflogaeth yn amodol ar gael:

- Geirda y mae’r ymddiriedolwyr yn barnu i fod yn foddhaol.
- Tystiolaeth o’r hawl i weithio yn y DU fel y’i diffinnir gan y Swyddfa Gartref
- Tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Manyleb Swydd

Pwrpas y swydd yw darparu arweinyddiaeth artistig i CDCCymru, gan gynnwys:

- Cynllunio, comisiynu a churadu’r rhaglen artistig ar draws gweithgareddau byw, dysgu a chyfranogi a digidol.
- Eirioli a hyrwyddo gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd y Cwmni ym mhob mater
- Mae sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o’r Cwmni, trwy waith, comisiynu, datblygu talent, gwaith

cyfranogi a phrosiectau creadigol eraill.

- Creu a chynnal cysylltiadau a chydweithrediadau sy’n datblygu rhaglen artistig y Cwmni ac yn gwella ei enw da a’i broffil.
- Gweithredu fel llysgennad i’r cwmni, yn enwedig at ddibenion codi arian ac ar gyfer y sector dawns ehangach yng Nghymru.

Cyfrifoldebau

Gweledigaeth artistig a’r rhaglen (50%*)

- Datblygu a mynegi polisi artistig ysbrydoledig a chydweithio â’r Bwrdd a’r Prif Weithredwr i angori hyn o fewn strategaeth gref ar gyfer dyfodol y Cwmni.
- Arwain curadu a chyflwyno rhaglenni gwaith ar gyfer teithio ar bob graddfa a lleoliad gan gynnwys digidol, yn y Tŷ Dawns ac mewn cymunedau.
- Datblygu cysylltiadau â choreograffwyr, pobl greadigol a phartneriaid a chomisiynu gwaith dawns byw a digidol newydd sy’n cyd-fynd â’r weledigaeth.
- Cefnogi coreograffwyr gwadd i greu eu gwaith gorau.
- Datblygu safonau perfformiad y Cwmni gan gynnwys ffitrwydd a lles y dawnswyr, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwyr Ymarfer.
- Rhoi arweinyddiaeth i’r staff a’r dawnswyr i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglen ddysgu a chyfranogi i gyrraedd yr ystod ehangaf bosibl o bobl, yn enwedig yng Nghymru.
- Creu a gweithredu cynlluniau artistig o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chefnogi’r tîm Cynhyrchu i sicrhau bod cynrychiadau’n uchelgeisiol wrth reoli disgwyliadau artistig lle bo angen.
- Datblygu partneriaethau artistig, gan ystyried rhwydwaith o sefydliadau ac artistiaid celfyddydol Cymru, a thu hwnt, yn llawn gan gynnwys gweithgareddau fel teithio a darlledu.
- Gweithio gyda’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, i ddatblygu amcanion datblygu cynulleidfa ac i gryfhau cysylltiadau rhwng rhaglennu ac amrywio cynulleidfaoedd.

Arwain a Rheoli (20%*)

- Rhoi arweinyddiaeth i’r sector dawns yng Nghymru, dyfeisio rhaglenni i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau a phartneriaethau rhwng y Cwmni ac artistiaid lleol, meithrin partneriaethau creadigol a chwilio am dalent amrywiol.
- Gweithredu fel eiriolwr ar gyfer dawns yng Nghymru.
- Cyfrannu at feddlw a chyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad, gan sicrhau bod y rhaglen artistig yn adlewyrchu gweledigaeth ac adnoddau’r Cwmni yn llawn.
- Ysbrydoli ac ysgogi staff ar draws y sefydliad i wireddu’r weledigaeth.
- Arwain y dull o ddatblygu sgiliau a thalent, yn enwedig ar gyfer dawnswyr, myfyrwyr dawns ac ymarferwyr.
- Mynd i a chyfrannu at drafodaethau am bob maes gweithredu mewn cyfarfodydd bwrdd a gweithio’n agos gyda’r Grŵp Cyngchori Artistig.
- Cyd-greu a chyflwyno’r cynllun busnes a chyfrannu at ei ddatblygiad a’i adnewyddu.
- Cyfrannu at geisiadau am gyllid a chynigion.
- Arwain y gwaith o werthuso gweithgareddau artistig a chreu diwylliant o ddysgu a gwella.
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am arfer cyfredol mewn dawns ryngwladol a’r DU, cyngchori’r Bwrdd a chydweithwyr, a chyfrannu at rwydweithiau a datblygiadau Cymru a’r DU.
- Cyfrannu at amserlennu gweithgareddau’r Cwmni yn effeithiol.
- Cydweithio â sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer myfyrwyr dawns.

Cyllid (10%*)

- Gweithio’n agos gyda’r Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a’r Cynhyrchydd Teithiau a Phrosiectau (ac eraill) i ddatblygu a rheoli cyllidebau rhaglennu.

Rheoli Adnoddau Dynol (10%*)

- Bod yn rheolwr llinell ar y Cyfarwyddwyr Ymarfer a’r Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi a chymryd cyfrifoldeb am berfformiad a datblygiad proffesiynol.
- Gweithio’n agos gyda’r Cyfarwyddwyr Ymarfer i osod diwylliant a’r arddull gwaith ymhlith dawnswyr y Cwmni, gan hyrwyddo ffyrdd o weithio sy’n hyrwyddo gwerthoedd y Cwmni yn weithredol.

- Cyfrannu at strategaeth iechyd a lles y dawnswyr.
- Cefnogi ac annog datblygiad proffesiynol staff y Cwmni.
- Cymryd rhan mewn recriwtio, rheoli perfformiad, disgyblaeth a chwyno, yn unol â pholisïau.

Dyletswyddau cyffredinol (10%*)

- Gweithredu fel esiampl i’r holl gyflogeion o ran ymddygiad proffesiynol, safonau a pholisïau.
- Gweithredu fel llefarydd ar ran y Cwmni mewn digwyddiadau codi arian, mewn eiriolaeth gyffredinol ac yn fewnol.
- Dirprwyo i’r Prif Weithredwr yn ôl yr angen.
- Darparu adroddiadau a gwybodaeth amserol i’r Bwrdd.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill a ddisgwyilir yn rhesymol gan y Prif Weithredwr neu’r Bwrdd.

Mae’r swydd ddisgrifiad a’r canrannau hyn yn ganllaw i natur y gwaith sy’n ofynnol gan y Cyfarwyddwr Artistig. Nid yw hyn yn gwbl gynhwysfawr nac yn gyfyngol a gellir ei adolygu gyda deiliad y swydd, o bryd i’w gilydd.

*Rhoddir y canrannau hyn fel canllaw bras ar gyfer y cyfnod o amser disgwyliedig a dreulir ar bob maes.

Manyleb person

Sgiliau a phrofiad

Hanfodol

- Arweinydd profedig sydd â phrofiad dawns arbenigol a hanes o gomisiynu, creu, cynhyrchu neu gyflwyno ystod o waith dawns o ansawdd uchel.
- Profiad o raglennu/curadu gwaith dawns ar gyfer teithio a chyd-destunau perfformio eraill.
- Ymrwymiad grymus ac effeithiol i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn dawns yn gyffredinol a’r cwmni yn benodol: ei staff, dawnsywyr, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr a ffyrdd o weithio, ynghyd â’r gallu i wneud i newid ddigwydd.
- Gwybodaeth helaeth o ymarfer dawns yn y DU ac yn rhyngwladol, a rhwydwaith eang o gysylltiadau a chydweithredwyr sy’n berthnasol i CDCCymru.
- Deall potensial a chwmpas gweithio’n ddigidol a diddordeb gweithredol ynddo.
- Ymrwymiad i, a phrofiad o gynllunio dysgu a gweithgaredd cyfranogi fel rhan annatod o weledigaeth artistig cyffredinol sefydliad.
- Dealltwriaeth ddiwylliannol o hyrwyddo a defnyddio’r Gymraeg ac os nad yn siaradwr, ymrwymiad i ddysgu’r iaith hyd eithaf eu gallu.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu lefel uwch.
- Hanes da fel cydweithredwr sy’n gallu annog a chynnal cysylltiadau creadigol cryf, yn fewnol ac yn allanol, a gweithio’n dda mewn ystod o bartneriaethau.
- Ymrwymiad i chwilio am gydweithrediadau deinamig ac i weithio mewn partneriaeth.
- Y gallu i feddwl yn y tymor hir a chyfrannu at gynllunio strategol.
- Dealltwriaeth o agweddau gweinyddol ac ariannol rheoli cwmnïau, gyda hanes o weithio i gyllidebau a therfynau amser.
- Gallu profedig i feithrin talent a photensial mewn artistiaid.
- Dealltwriaeth o’r cylch gwaith a’r cyd-destun gwleidyddol y mae cwmni celfyddydau cenedlaethol yn gweithio ynddo
- Dealltwriaeth o anghenion iechyd a diogelwch a hyfforddi dawnsywyr.
- Ymwybodol o risg ond ddim yn wrth-risg.

Dymunol

- Profiad a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a’r iaith Gymraeg.
- Siaradwr Gymraeg
- Profiad o arwain cwmni sy’n teithio.
- Profiad o gynllunio rhaglenni sefydlog.
- Profiad o oruchwyllo creadigaethau a choreograffwyr.
- Profiad o weithio gyda Bwrdd ac adrodd iddynt.
- Profiad o weithio yn rhyngwladol.
- Gyrrwr car, gyda thrwydded yrru llawn a glân.

Sut i wneud cais

Cyn i chi wneud cais rydym yn eich annog i gysylltu â Theresa Beattie, ein hymgyng'horydd recriwtio, trwy Theresa.beattie1@gmail.com a bydd hi’n trefnu amser ar gyfer sgwrs.

Yn eich cais, esboniwch sut rydych chi’n cwrdd â’r fanyleb person a nodwch pam yr hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y swydd hon. Gallwch wneud cais trwy unrhyw un o’r ffyrdd canlynol yn Gymraeg neu Saesneg:

- Llythyr eglurhaol dim mwy na dwy dudalen o bapur A4 (maint ffont I2),
- Ffeil sain dim mwy na 5 munud o hyd,
- Ffeil fideo MP3/MP4 dim mwy na 5 munud o hyd wedi’i hanfon trwy We Transfer

Dylech hefyd gynnwys:

- CV.
- Dolenni i dair enghraifft o waith curadu neu raglennu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Manylion unrhyw gyfnod rhybudd/ymrwymadau presennol/ymrwymadau artistig yn y l8 mis nesaf.
- Enwau a manylion cyswllt dau ganolwr cyflogaeth/proffesiynol. Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr oni bai bod ymgeiswyr yn cael gwahoddiad i ail gyfweiliad.
- Datganiad bod gennych yr hawl i weithio yn y DU neu fod angen trwydded waith arnoch i wneud hynny.

Llenwch y ffurflen **Cyfle Cyfartal, hon,** at ddibenion monitro ac sydd ar wahân i’ch cais.

Dylid cyflwyno ceisiadau i Jane McCloskey, Cadeirydd Bwrdd CDCCymru, trwy e-bost i artistdirector@ndcwales.co.uk gyda ‘Cyfarwyddwr Artistig CDCCymru’ yn y llinell pwnc. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 27 Tachwedd am 10.00.**

Bydd ymgeiswyr sy’n cael gwahoddiad am gyfweiliad yn cael gwybod erbyn dydd Gwener 4 Rhagfyr. Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd, pa un a ydynt yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ai peidio. Gwahoddir ymgeiswyr anabl sy’n dangos eu bod yn cwrdd â’r fanyleb person am gyfweiliad, ac rydym wedi ymrwmo i fodloni gofynion mynediad; dim ond i chi roi gwybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.

Bydd cyfweiliadau cam cyntaf yn cael eu cynnal trwy delegynhadledda ar ddydd lau 10 Rhagfyr. Bydd yna ail rownd o gyfweiliadau ym mis Ionawr a fydd yn caniatáu amser i ymgeiswyr dethol gwrdd â’r dawnsywyr a’r tîm ehangach.

Mae’r pecyn hwn ar gael, print bras a fformat sain.

Anfonwch neges e-bost at Kelly Twydale yn

kelly@ndcwales.co.uk i ofyn am y pecyn mewn unrhyw fformat arall.

Mae cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd holl weithgareddau CDCCymru. Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gael mynediad i ddawns. Bydd CDCCymru yn ceisio sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd bod ganddo nodwedd warchodedig. Rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector dawns, a chan y rhai sy’n profi gwahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, hil, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran.

Diogelu Data


Defnyddir y wybodaeth a roddwch i greu rhestr fer ar gyfer cyfweiliadau ac i lywio ein penderfyniad ynghylch pwy i’w benodi. Bydd eich holl fanylion yn cael eu cadw’n ddiogel gyda mynediad yn gyfyngedig i’r rhai sy’n ymwneud â’r broses recriwtio yn unig.

Bydd eich cais yn cael ei gadw ar ffeil am o leiaf dri mis ar ôl y dyddiad cau a’i ddinistrio ddim hwyrach na deuddeg mis ar ôl hynny.

Mae data recriwtio cyfle cyfartal hefyd yn ddienw ac yn cael ei ddefnyddio’n fewnol i nodi ffyrdd i wella ein prosesau a chyrraedd y gronfa ehangaf bosibl o ymgeiswyr. Mae cyflwyno’ch cais i ni yn dangos eich caniatâd i’ch data gael ei ddefnyddio yn y modd hwn.

Strwythur Staff Presennol

*UDA – Uwch-dîm Arweinyddiaeth



Ffotograffau yn ôl trefn ymddangos:

Lunatic gan Nigel Charnock: Delwedd gan Mark Douet

Cyswllt, Datgyswllt, ffilm ddawns gan y bardd, Elan Grug Muse a'r dawnsiwr, Shakeera Ahmun: Sgrin lun

Dosbarth Dawns ar gyfer Parkinson's: Delwedd gan Billie Charity

Dosbarth Dawns ar gyfer Parkinson's: Delwedd gan Billie Charity

Afterimage gan Fernando Melo: Delwedd gan Rhys Cozens

2067: Time and Time and Time gan Alexandra Waierstall: Delwedd gan Mark Douet

Rygbî: Annwyl i Mi gan Fearghus Ó Conchúir: Delwedd gan Iolo Penri

Lunatic gan Nigel Charnock: Delwedd gan Mark Douet

Delweddau Repertoire fel y'u labelwyd gan Rhys Cozens, Mark Douet ac Iolo Penri

Plethu/Weave: Cipluniau o Triptych Rhan I gan Ed Myhill a Marvin Thompson, a Ble Mae Bilaadi gan Aisha Naamani a Hanan Issa,

Myfyrdodau gan Fearghus Ó Conchúir: Sgrin lun

Cast cymunedol P.A.R.A.D.E. gan CDCCymru, BBCNOW a Marc Rees: delwedd gan Mark Douet

Atalay gan Mario Bermudez Gil: delwedd gan Rhys Cozens